**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar STEM

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cyfarfod am 18.30, ddydd Mawrth 5 Mawrth 2019, Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel

**COFNODION**

**Yn bresennol:**

David Rees AC (yn y gadair) a Nick Ramsay AC, a'r cynrychiolwyr allanol canlynol: Yr Athro Ian Wells, Matthew Allen, Yr Athro Keith Smith, Keith Jones, Dr David Cunnah, Yr Athro Michael Charlton, Dr Stephen Benn, Cerian Angharad, Yr Athro Mike Edmunds, Bob Cater, Dave Jones, yr Athro Faron Moller, Tom Addison, a Leigh Jeffes

**Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys ein siaradwyr Sam Evans o Newport Wafer Fab, a'i gydweithwyr, Simon Argent ac Andrew Evans; a Dr Robert Hoyle o Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru, Matthew Allen a oedd yn cynrychioli Gŵyl Wyddoniaeth Caerdydd, yr Athro Michael Charlton, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a Tom Addison o'r Gymdeithas Ffisiolegol.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Dr Dai Lloyd AC, a'r Athro Paul Harrison, yr Athro Tom Crick MBE, Emily Bristow, Dr Geertje van Keulen, ac Andrew Hall.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2018**

Roeddent wedi cael eu dosbarthu.

**Materion yn codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi

**Gwyddoniaeth a'r Cynulliad, 4 Mehefin 2019**

Amlinellodd Leigh y trefniadau ar gyfer digwyddiad blynyddol y Gymdeithas Gemeg Frenhinol:
Y thema fyddai 'Addysg a Sgiliau' a byddai’n cynnwys dwy sesiwn panel trafod ar ddiwygio'r cwricwlwm a materion yn ymwneud â chyllido ymchwil addysg uwch. Bydd y Gweinidog Addysg yn siarad yn y derbyniad yn gynnar fin nos a bydd y Prif Gynghorydd Gwyddonol yn cyflwyno araith gyweirnod yn ystod cyflwyniadau'r prynhawn. Bydd yr arddangosfa capasiti yn cynnwys bron i 30 o gymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol. Diolchodd Leigh i'r Cadeirydd, gyda chefnogaeth yr Is-Gadeiryddion, am noddi'r digwyddiad.

**Pynciau ar gyfer cyfarfodydd mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2019**

Mae Emma Bristow wedi cynnig rhoi cyflwyniad yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

Gofynnwyd i'r Aelodau anfon awgrymiadau at Leigh am ail siaradwr posibl ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf a siaradwyr ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd.

**Cymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol - y wybodaeth ddiweddaraf**

Rhoddodd y cynrychiolwyr ddiweddariad byr o weithgareddau diweddar, cyfredol a gweithgareddau'r dyfodol.

**Adroddiad gan Dr Robert Hoyle, Prif Swyddog Gwyddonol, Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru**

Rhoddodd Dr Hoyle wybodaeth i'r Grŵp am y datblygiadau cyfredol ac atebodd gwestiynau.
Diolchodd y Cadeirydd i Dr Hoyle am ei gyflwyniad.

**Cyflwyniad: Mr Sam Evans, Cyfarwyddwr Ansawdd a Materion Allanol, Newport Wafer Fab - 'Y Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd a'r cyfle sydd ger ein bron!**

Atebodd Mr Evans a'i gydweithwyr gwestiynau yn dilyn eu cyflwyniad, a diolchodd y Cadeirydd iddynt.

**Unrhyw fater arall**

Soniodd Leigh Jeffes am drefniadau ysgrifenyddol y Grŵp yn y dyfodol, a ddarparwyd ganddo ef (fel ymgynghorydd), dan nawdd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, ers sefydlu'r Grŵp yn 2008.
Mae'r Gymdeithas wedi creu swydd newydd Rheolwr Materion Cyhoeddus - Cenhedloedd Datganoledig. Penodwyd Niall Sommerville, a fydd wedi'i leoli yn yr Alban, ond a fydd hefyd yn ymdrin â materion cyhoeddus yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, a fyddai'n cynnwys cydlynu'r Grŵp Trawsbleidiol ar STEM, o'r haf ymlaen. Byddai'r rôl hon gyda'r Grŵp Trawsbleidiol yn amodol ar gytundeb aelodau'r Grŵp, fel sy'n digwydd bob mis Tachwedd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd Leigh yn cyflwyno Niall i'r aelodau yn y cyfarfod ar 2 Gorffennaf.
Dywedodd Leigh Jeffes ei fod wedi cytuno gyda'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol i barhau i drefnu'r digwyddiad *Gwyddoniaeth a'r Cynulliad* blynyddol, a bydd yn parhau i adrodd ar y digwyddiad yn un o gyfarfodydd y Grŵp yn y dyfodol.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Mawrth 2 Gorffennaf, Ystafell Gynadledda A, 6.30pm

**Cloi'r cyfarfod**

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 20.00.